# Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
# Cofnodion cyfarfod dydd Iau 24 Tachwedd 2022

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | |
| Lindsay Foyster | Cadeirydd ac aelod anweithredol |
| Adrian Crompton | Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Alison Gerrard | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol |
| Adam Marshall | Aelod-gyflogai etholedig |
| Anne Beegan | Aelod-gyflogai etholedig |
| David Francis | Aelod anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol |
| Elinor Gwynn | Aelod anweithredol |
| Ian Rees | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg |
| Kevin Thomas | Aelod-gyflogai penodedig a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol (EDCS) |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| **Yn bresennol:** | |
| Ann-Marie Harkin | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Archwilio (EDAS) |
| Anne-Louise Clark | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid (EDCC) |
| Katherine Drysdale | Ysgrifennydd y Bwrdd (cofnodion) |
| Ceri Hughes | Rheolwr y Rhaglen Newid (eitemau 8 a 9) |
| Lisa Williams | Rheolwr Archwilio (eitem 9) |
| Nicola Evans | Pennaeth Cyllid (eitemau 9 i 11) |
| Siobhan Cole | Pennaeth AD (eitemau 8 i 12) |
| **Yn Arsylwi:** | |
| Abigail Gregory | Prentis Cyllid |
| Abigail Philips | Rheolwr y Prosiect Newid |
| Darren Griffiths | Rheolwr Archwilio |
| David Thomas | Cyfarwyddwr Archwilio |
| Heather Reader | Uwch Gyfrifydd |

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 1 | Penodi aelod-gyflogai penodedig o'r Bwrdd (a gynhaliwyd mewn sesiwn breifat o'r aelodau anweithredol) |
| 2 | Croeso gan y cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldebau |
| 3 | Datganiadau o fuddiant |
| 4 | Adolygiad o gofnodion: Cyfarfodydd y Bwrdd 20 a 27 Medi 2022 |
| 5 | Adolygiad o'r traciwr gweithredu |
| 6 | Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol |
| 7 | Y diweddaraf gan y Cadeirydd |
| 8 | Arolwg Staff |
| 9 | Adroddiad ar Berfformiad Integredig |
| 10 | Cynllun Ffioedd 2023-24 |
| 11 | Adroddiad gan y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol 15 Tachwedd 2022 |
| 12 | Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad: adolygiad blynyddol |
| 13 | Unrhyw fusnes arall |
| 14 | Adolygiad o'r flaenraglen waith |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Iau 24 Tachwedd 2022**

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 15 | Adolygiad o'r cyfarfod |
| 16 | Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf: Datblygu - Dydd Llun 05 a Dydd Mawrth 06 Rhagfyr 2022; Strategol - Dydd Iau 26 Ionawr 2023; Busnes - Dydd Iau 16 Chwefror 2023 |

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog** | | |
| **1** | **Penodi aelod-gyflogai penodedig o'r Bwrdd (a gynhaliwyd mewn sesiwn breifat o'r aelodau anweithredol)** | |
| 1.1 | Cyflwynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) bapur yn amlinellu ei gynnig ar gyfer ei aelod-gyflogai penodedig o'r Bwrdd, y sail resymegol dros yr enwebiad a'r telerau a'r amodau arfaethedig ar gyfer y penodiad. | |
| 1.2 | Nododd yr aelodau anweithredol y sail resymegol dros yr enwebiad, roeddent yn fodlon fod y penodiad yn cael ei wneud ar deilyngdod gan gymeradwyo:<br>• penodiad Darren Griffiths yn aelod-gyflogai penodedig yr Archwilydd Cyffredinol o'r Bwrdd am gyfnod o bedair blynedd yn weithredol o 01 Ionawr 2023;<br>• y telerau a'r amodau ar gyfer y penodiad a oedd yn adlewyrchu'r rhai ar gyfer aelodau-gyflogai etholedig y Bwrdd. | |
| 1.3 | Byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi neges i'r holl staff i gadarnhau'r penodiad ac i egluro ei sail resymegol. | ACC |
| 1.4 | Nododd yr aelodau anweithredol y byddai Darren yn ymuno â'r cyfarfod fel arsylwr fel rhan o'r broses gynefino | |
| **2** | **Croeso gan y cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldebau** | |
| 2.1 | Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r rhai oedd yn bresennol. | |
| 2.2 | Byddai Adam Marshall yn ysgrifennu blog y cyfarfod, gan ymgorffori negeseuon allweddol a gofnodwyd gan yr EDCC. | AM |
| **3** | **Datganiadau o fuddiant** | |
| 3.1 | Nododd y Cadeirydd fuddiannau nad oeddent yn niweidiol a ddatganwyd gan aelodau-gyflogai (a staff a oedd yn bresennol) yn eitem 11 (adroddiad y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol). | |
| **4** | **Adolygiad o gofnodion: cyfarfodydd y Bwrdd 20 a 27 Medi 2022** | |
| 4.1 | Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion ei gyfarfod ar 20 Medi 2022 yn gofnod cywir. | |
| 4.2 | Yn amodol ar fân welliannau, cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion ei gyfarfod ar 27 Medi 2022 yn gofnod cywir. | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| **5** | **Adolygiad o'r traciwr gweithredu** | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Iau 24 Tachwedd 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 5.1 | Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau o'u cymharu â chamau gweithredu y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn eu hadlewyrchu ar y traciwr, gan gynnwys:<br>• WAOB/21/061 (Cofrestr Risgiau Strategol): Ysgrifennydd y Bwrdd i atgoffa aelodau i roi adborth ar eu defnydd o'r fframwaith adrodd risg a sicrwydd.<br>• WAOB/22/014 (fframwaith gwerth am arian): Cadarnhaodd Elinor Gwynn ei bod wedi elwa ar y sesiwn wybodaeth ac awgrymodd y gellid ystyried y cysyniad o werth ar gyfer trafodaeth strategol yn y dyfodol. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn nodi hyn ar gylch busnes y Bwrdd i'w ystyried gan grŵp cynllunio'r Bwrdd.<br>• WAOB/22/021 (Adroddiad ar Berfformiad Integredig): creu camau gweithredu newydd i'r grŵp gorchwyl a gorffen adolygu'r adroddiad; byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn anfon negeseuon e-bost at aelodau ar gyfer eu hadborth er mwyn llywio'r adolygiad.<br>• WAOB/22/034 (Cofrestr Risgiau Strategol): roedd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (ELT) wedi dod i'r casgliad bod risgiau'n ymwneud ag ymgysylltu â staff wedi'u cwmpasu'n ddigonol mewn risgiau eraill, ond awgrymodd y dylai'r Bwrdd ystyried hyn wrth adolygu canlyniadau'r arolwg staff (eitem 8). | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| **6** | **Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol** | |
| 6.1 | Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr ei adroddiad a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y canlynol:<br>Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol<br>Roedd cynnig diwygiedig wedi'i wneud gan landlordiaid Heol y Gadeirlan yr oedd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes yn ei adolygu o'i gymharu â meini prawf yr ystadau a bennwyd gan y Bwrdd. Byddai'n rhybuddio'r Bwrdd pe byddai'r asesiad hwnnw'n dangos bod y cynnig angen ystyriaeth bellach.<br>Gweithredu Diwydiannol<br>Roedd Prospect yn cynnal pleidlais leol ar weithredu diwydiannol (yn cau ar 06 Rhagfyr) ac roedd PCS yn dilyn y safbwynt cenedlaethol o ran streicio wedi'i dargedu yn dilyn pleidlais. Roedd gweithredu diwydiannol yn Archwilio Cymru cyn y Nadolig yn ymddangos yn annhebygol ond byddai'n rhoi gwybod i'r Bwrdd pe bai gweithred ar fin digwydd.<br>Amcangyfrif / Hinsawdd Gyllidebol<br>Roedd yr adroddiad yn sgil craffu'r Pwyllgor Cyllid ar 2021-22 a'r Amcangyfrif wedi dod i law. Roedd yr adroddiad yn cydnabod y dull gochelgar a ddefnyddiwyd i baratoi'r Amcangyfrif ar gyfer 2023-24 ond cododd nifer o argymhellion. Esboniodd y Prif Weithredwr gyd-destun cyfyngiadau cyllidebol y sector cyhoeddus, gan dynnu sylw at y ffaith na ddylai pwysau gwleidyddol beryglu ei annibyniaeth. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Iau 24 Tachwedd 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 6.2 | Trafododd y Bwrdd oblygiadau ariannol symud y swyddfa, gan nodi'r arbedion a'r gostyngiad ym maint y lle a'r manteision i staff ac ansawdd yr archwilio yn sgil gweithio fel tîm wyneb yn wyneb. Roedd y Bwrdd yn fodlon y byddai rheolwyr yn monitro’r defnydd o'r safle a'r hyblygrwydd a ddarperir gan brydlesau ar wahân ac y byddai cymalau terfynu yn caniatáu addasiadau pe bai'n briodol. | |
| 6.3 | Fel arall nododd y Bwrdd yr adroddiad. | |
| **7** | **Y Diweddaraf gan y Cadeirydd** | |
| 7.1 | Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad ysgrifenedig ac awgrymodd y dylid ystyried cynlluniau i ddatblygu ymgysylltu rhwng y Bwrdd, ELT a staff yng nghyd-destun canlyniadau’r arolwg staff. | |
| 7.2 | Nododd y Bwrdd yr adroddiad. | |
| **8** | **Arolwg Staff** | |
| (a) Adroddiad fflach | | |
| 8.1 | Nododd y Cadeirydd fod yr adroddiad fflach ar yr arolwg staff wedi'i rannu ymhlith yr aelodau cyn y cyfarfod, ac roedd aelodau wedi'u cynnwys yn yr e-bost i’r holl staff oddi wrth y Prif Weithredwr a oedd yn sôn am feysydd allweddol oedd yn peri pryder. | |
| 8.2 | Yn fras, amlinellodd y Prif Weithredwr y negeseuon allweddol o'r canlyniadau gyda negeseuon cadarnhaol mewn meysydd yn ymwneud ag ymddiriedaeth, triniaeth deg a pharch, cryfder gweithio mewn tîm a threfniadau gweithio hyblyg. Fodd bynnag, roedd gostyngiadau siomedig mewn sgoriau cadarnhaol ar gyfer arweinyddiaeth, ymgysylltu, rheoli perfformiad, dysgu a datblygu a thegwch wrth recriwtio. Roedd yr ELT yn cydnabod y gallai'r argyfwng costau byw roi rhywfaint o gyd-destun ar gyfer ymatebion, ond byddai angen dadansoddi’r canlyniadau’n llawnach er mwyn canfod y problemau sylfaenol a’r sail resymegol dros yr ymatebion. | |
| 8.3 | Trafododd y Bwrdd ganlyniadau'r arolwg yn fanwl gan gytuno y byddai dadansoddiad ychwanegol o'r canlyniadau yn helpu i ddeall y canlynol:<br>• y materion gweithredol a diwylliannol allweddol sydd wrth wraidd y canlyniadau;<br>• y symudiadau mewn sgoriau, gan gynnwys y cyfrannau uwch o sgoriau niwtral;<br>• y gwahaniaethau rhwng ymatebion yr arolwg staff a'r rhai a roddwyd i adolygiadau mwy penodol megis yr arolwg rheoli perfformiad ac adolygiadau archwiliad dwfn a gwblhawyd mewn ymateb i'r arolwg staff blaenorol;<br>• amrywiannau yn yr ymatebion o wahanol dimau neu feysydd yn y busnes;<br>• sut i anelu camau gweithredu er mwyn gwella. | |
| 8.4 | Roedd y Bwrdd yn pryderu am y tueddiadau a'r diwylliant negyddol a amlygwyd gan ymatebion yr arolwg. Cytunodd y Bwrdd, er bod y | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Iau 24 Tachwedd 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | Bwrdd ac ELT yn dangos arweiniad clir, roedd yn bwysig annog perchnogaeth o ganlyniadau ac atebion yr arolwg a gynlluniwyd mewn ymateb ar draws y sefydliad, gyda pherchnogaeth a rennir a chyfrifoldeb personol yn cael eu cynnwys mewn gohebiaeth ynghylch newidiadau disgwyliedig i sbarduno gwelliant. | |
| 8.5 | Roedd y Bwrdd yn fodlon y byddai'r rheolwyr yn dadansoddi'r canlyniadau ac yn cynllunio eu hymateb llawnach cyn y drafodaeth a drefnwyd ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2023. | |
| (b) Y Dull o weithredu arolygon staff yn y dyfodol | | |
| 8.6 | Esboniodd yr EDCC fod y ffaith fod y contract ar gyfer cyflawni'r arolwg staff wedi dod i ben wedi sbarduno ystyriaeth o ddull diwygiedig o gyflawni arolygon yn y dyfodol. Amlinellodd ddiwygiadau arfaethedig i'r trosolwg o ofynion ar gyfer caffael gwasanaethau ar gyfer cyflawni arolygon staff. | |
| 8.7 | Trafododd y Bwrdd y canlynol:<br>• Gogwydd y Pwyllgor Cyllid ar gyfer parhad i ddarparu tueddiadau a galluogi cymharu canlyniadau;<br>• manteision cynnal cymhared ar gyfer dibenion mewnol a chraffu allanol;<br>• manteision ac anfanteision yr arolwg presennol, ei hyd, perthnasedd cwestiynau ac anhawster wrth ddehongli cwestiynau ac ymatebion;<br>• dulliau gweithredu amgen, megis arolygon byrrach ond yn amlach a gyda mwy o ganolbwynt, deialog wedi'i hwyluso i archwilio themâu ar y cyd neu ddull hybrid sy'n ategu cwestiynau'r gwasanaeth sifil a chyhoeddi'r arolwg mewn darnau dros y flwyddyn;<br>• y risgiau a ganfyddir o fabwysiadu ymagwedd wahanol;<br>• defnyddio'r arolwg - darparu data ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol y cynllun blynyddol yn ogystal â mewnwelediad o'r sefydliad. | |
| 8.8 | Cytunodd y Bwrdd y dylai unrhyw ddull gweithredu yn y dyfodol wneud y canlynol:<br>• ymgorffori'r themâu o'r arolwg presennol i gynnal parhad a chymhared, gan adeiladu mewn cyfnod pontio;<br>• mynd i'r afael â'r angen am ddata gwell a chyfoethocach i roi hyder i'r Bwrdd a'r staff fod y sefydliad yn gwneud y pethau cywir i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi;<br>• cael ei ddatblygu / ei gyd-gynhyrchu gydag adborth a mewnbwn gan staff er mwyn ennyn diddordeb staff o'r cychwyn cyntaf. | |
| 8.9 | Byddai'r EDCC yn datblygu'r trosolwg o'r gofynion ymhellach ar gyfer caffael gwasanaethau ar gyfer cyflawni arolygon yn y dyfodol ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd, naill ai yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2023 neu'n rhithiol yn ôl yr angen. | EDCC |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Iau 24 Tachwedd 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **9** | **Adroddiad ar Berfformiad Integredig** | |
| 9.1 | Cyflwynodd yr EDCC bapur a oedd yn darparu diweddariad y perfformiad chwarter dau sy'n cwmpasu'r meysydd canolbwyntio presennol ar gyfer yr ELT, risgiau strategol allweddol, y sefyllfa ariannol hyd at ddiwedd mis Hydref a'r gwaith cyflawni o'i gymharu â Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cynllun blynyddol a'r strategaeth bum mlynedd. | |
| 9.2 | Esboniodd yr EDCC fod pwyslais ELT ar liniaru'r risgiau strategol yn ymwneud â chyllid, arbedion a'r gallu i godi tâl, yn ystod y flwyddyn ac ar gyfer y tymor hwy, a byddai'r egwyddorion a gynigir ar gyfer adolygiad o gynaliadwyedd ariannol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2023. | |
| 9.3 | Amlinellodd yr EDCC feysydd eraill o weithgaredd yn ymwneud ag ymgysylltu â staff a chanlyniadau'r arolwg staff, newid swyddfa, gweithredu'r system Rheoli Amser ac Adnoddau ac ymgysylltu â'r undebau llafur ynghylch cyflogau. | |
| 9.4 | Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ddiweddariad ynghylch y sefyllfa ariannol bresennol, gan esbonio y rhagamcanir gwarged bach ar hyn o bryd yn dilyn gweithredu arbedion yn ystod y flwyddyn; fodd bynnag, roedd risg yn parhau mewn cysylltiad â darparu incwm. | |
| 9.5 | Bu'r Bwrdd yn archwilio'r canlynol:<br><u>Risgiau i'r gwaith o gyflawni archwiliadau</u>, gan ystyried risgiau a heriau strategol a gweithredol mewn darparu adnoddau a recriwtio. Esboniodd yr EDAS fod rhywfaint o oedi wedi bod mewn archwiliadau ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol a chanolog, yn bennaf oherwydd ffactorau allanol, ond roedd rhai archwiliadau perfformiad wedi cael eu symud i gefnogi'r gwaith o gyflawni. Cadarnhaodd fod ymddiswyddiadau wedi creu pwysau a effeithiodd ar staff.<br>Awgrymodd y Bwrdd y byddai o gymorth i gynnwys cipolwg ar gyflawni archwiliadau yn iteriadau'r adroddiad yn y dyfodol. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn cofnodi'r adborth hwnnw ar gyfer adolygiad o'r adroddiad.<br><u>Arbedion swyddi gwag, eu heffaith a'u cynaliadwyedd</u>. Esboniodd y Prif Weithredwr, er bod arbedion o fewn y flwyddyn wedi'u cyflawni drwy atal rhywfaint o recriwtio a gwrthgilio yn y sefydliad, roedd yr ELT yn ceisio cymryd agwedd fwy trylwyr a chynaliadwy tuag at gynllunio arbedion a sicrhau'r incwm mwyaf. Nododd y Bwrdd fod y Pwyllgor Cyllid yn disgwyl i ragdybiaethau ynghylch arbedion swyddi gwag gael eu cynnwys yn y gyllideb, yn unol â chyrff eraill. Anogodd y Bwrdd y rheolwyr i fod yn realistig wrth ragamcanu arbedion swyddi gwag i adlewyrchu'r posibiliadau sy'n gyfyngedig yn gynyddol ar gyfer cyflawni arbedion yn y modd hwn.<br><u>Risgiau'n ymwneud ag ymgysylltu â staff</u>, yn sgil canlyniadau'r arolwg staff. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r ELT yn adolygu'r risgiau o ran | Ysgrifennydd y Bwrdd<br><br>ELT |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Iau 24 Tachwedd 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | ymgysylltu â staff fel rhan o'u hystyriaeth o ganlyniadau'r arolwg staff, gan roi diweddariad ar gyfer yr adroddiad nesaf i'r Bwrdd ym mis Ionawr. | |
| 9.6 | Cyflwynodd yr EDAS bapur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch cyflwyno'r system Rheoli Amser ac Adnoddau (TRM), y sefyllfa adnoddau net ac incwm a ragamcanir. Amlygodd y canlynol:<br>• gweithgaredd ar y gweill i ddarparu hyfforddiant TRM, mynd i'r afael â phroblemau bach technegol a symudiad diwylliannol i staff;<br>• effaith swyddi gwag, gan gynnwys Arweinwyr Archwiliad Ariannol a'r her o recriwtio mewn marchnad hynod o gystadleuol;<br>• mae'r gwaith yn parhau i gyflawni incwm, drwy leihau amser nad yw'n amser archwilio a cheisio llenwi swyddi gwag yn gyflym. | |
| 9.7 | Bu'r Bwrdd yn trafod pa mor gymhleth oedd cynllunio a rhoi adnoddau i gyflawni archwiliadau a chynhyrchu incwm, gan gydnabod y gallai materion y tu hwnt i reolaeth y rheolwyr effeithio'n andwyol ar gynlluniau. Esboniodd y Prif Weithredwr fod atebion tymor byr yn cael eu gweithredu am weddill y flwyddyn bresennol, a byddai adolygiad mwy sylfaenol o'r dull o ymdrin â chynhyrchu incwm ffioedd yn llywio'r datblygiad o opsiynau ar gyfer y dyfodol. | |
| 9.8 | Nododd y Bwrdd y byddai gwell gwybodaeth yn cefnogi'r broses gynllunio dros amser a byddai gwiriadau synnwyr rheolaidd yn cael eu cynnal ar y data byw, er mwyn sicrhau cywirdeb. | |
| 9.9 | Nododd y Bwrdd yr adroddiad perfformiad integredig, y byddai'r grŵp gorchwyl a gorffen yn ei adolygu gan ystyried adolygiad gwybodaeth rheolwyr Archwilio Mewnol ac adborth gan aelodau. | Cadeirydd / EDCC |
| **10** | **Cynllun ffioedd** | |
| 10.1 | Cyflwynodd yr EDCS bapur yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd o'r Cynllun Ffioedd ar gyfer 2023-24. Esboniodd nad oedd y newid arfaethedig o ffioedd i gyllid Cronfa Gyfunol Cymru wedi'i gynnwys ond ei fod yn bwriadu darparu briff cynnar i'r Pwyllgor Cyllid i nodi'r sail resymegol dros fwrw ymlaen â'r newid hwn ar gyfer 2024-25. | |
| 10.2 | Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid, er nad oedd y cynnydd sy'n gysylltiedig ag ISA315 yn hysbys eto y byddai'n synhwyrgall gosod Cynllun Ffioedd yn unol â'r hyn a welwyd eisoes gan y Pwyllgor Cyllid. | |
| 10.3 | Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Ffioedd ar gyfer 2023-24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyllid. | |
| **11** | **Adroddiad gan y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol** | |
| 11.1 | Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd gan dynnu sylw at argymhellion i'r Bwrdd eu cymeradwyo. Awgrymodd y dylid ystyried yr argymhellion sy'n ymwneud â'r Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad a'r Cynllun Cyflenwi fel rhan o'r eitem honno. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Iau 24 Tachwedd 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| 1 1.2 | Fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor, cymeradwyodd y Bwrdd y canlynol:<br>• y polisi gweithredu diwydiannol;<br>• ychwanegu buddion heb dâl, gyda chyhoeddusrwydd ehangach ar werth y pecyn buddion yn fewnol ac yn ystod recriwtio;<br>• mabwysiadu dull hyfforddi un i un o werthuso perfformiad, yn amodol ar ddarparu hyfforddiant addas i reolwyr llinell a monitro agweddau ffurfiol y broses yn ymwneud a gosod nodau a chofnodi dysgu a datblygu. | |
| 1 1.3 | Atgoffodd Cadeirydd y Pwyllgor yr aelodau bod papur cynhwysfawr wedi'i ddarparu a oedd yn amlinellu'r opsiynau ar gyfer canolfannau teithio ac yn darparu dadansoddiad manwl a modelu ariannol, ac roedd y Pwyllgor wedi trafod hynny'n fanwl. Ar sail argymhelliad y Pwyllgor roedd y Bwrdd yn fodlon cymeradwyo'r cynnig i ymgynghori'n ffurfiol gyda staff yn seiliedig ar opsiwn 2, canolfannau teithio cartref; ac i ohirio'r ymgynghoriad ffurfiol hwnnw nes ceir penderfyniad ynglŷn â dyfodol swyddfa Abergele. | |
| 1 1.4 | Cafodd y Bwrdd drafodaeth fer ar y diweddariad i'r eitem chwythu'r chwiban mewnol, gan nodi bod yr ymchwiliad wedi'i ohirio ond y byddai materion y broses a godwyd yn cael eu hadolygu fel rhan o'r adolygiad llywodraethu blynyddol. Byddai'r datgeliad yn cael ei ymgorffori yn yr adroddiad blynyddol ar chwythu'r chwiban i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. | |
| 1 1.5 | Fel arall nododd y Bwrdd yr adroddiad. | |
| **12** | **Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad a'r Cynllun Cyflawni** | |
| 12.1 | Cyflwynodd Pennaeth Adnoddau Dynol bapur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch datblygu'r Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad i'w halinio â'r strategaeth pum mlynedd, a'r Cynllun Cyflawni i ymgorffori canlyniadau clir â blaenoriaeth. Amlinellodd y cynnydd o'i gymharu â'r cynllun cyflawni gan gynnig gohirio'r adolygiad o'r Polisi Gweithio'n Ddoethach a gwaith o werthuso swyddi. | |
| 12.2 | Cafodd y Bwrdd drafodaeth fer ynghylch y cynllun ar gyfer rhaglen dysgu a datblygu integredig a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu Cymraeg, a byddai Pennaeth AD yn ychwanegu dyddiadau targed ar gyfer y camau hyn at y cynllun cyflawni. | |
| 12.3 | Ar argymhelliad y Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol, gwnaeth y Bwrdd y canlynol:<br>• cymeradwyo'r Strategaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad a'r Cynllun Cyflawni, gan gynnwys y canlyniadau a'r mesurau diwygiedig;<br>• nodi'r cynnydd o ran cyflawni a wnaed hyd yma;<br>• cytuno i ohirio'r adolygiad o'r Polisi Gweithio'n Ddoethach tan fis Ebrill 2023 a gohirio gwaith gwerthuso swyddi tan fis Ionawr 2024. | |
| **13** | **Unrhyw fusnes arall** | |
| 13.1 | Dim busnes arall. | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion cyfarfod dydd Iau 24 Tachwedd 2022**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **14** | **Adolygiad o'r flaenraglen waith** | |
| 1 4.1 | Nododd y Bwrdd ei flaenraglen waith a fyddai'n cael ei hadolygu'n gyson. | |
| 14.2 | Cytunodd y Bwrdd y byddai'n hapus i'r ELT adolygu o bryd i'w gilydd y rhagdybiaethau a oedd yn sail i'w benderfyniad yn 2019 i beidio â chontractio allan archwiliadau o brif gynghorau a chynghorau tref a chymuned ac i'r ELT gynnwys y Bwrdd pe bai newid mewn amgylchiadau neu newid arfaethedig yn y dull gweithredu. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn diweddaru'r rhaglen waith. | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| **15** | **Adolygiad o'r cyfarfod** | |
| 1 5.1 | Croesawodd y Bwrdd adborth gan yr arsyllwyr a wnaeth sylwadau ar y canlynol:<br>• amrywiaeth y pynciau dan sylw ac ehangder y trafodaethau;<br>• dyfnder y drafodaeth ar yr arolwg pobl a oedd yn nodi gwerth staff i'r Bwrdd;<br>• y defnydd o'r adroddiad perfformiad integredig i roi safbwynt darlun mwy;<br>• y potensial i gynnwys myfyrdodau arsyllwyr yn y blog i roi persbectif gwahanol ar rôl a gweithrediad y Bwrdd. | |
| 1 4.2 | Fe wnaeth aelodau'r bwrdd y sylwadau canlynol:<br>• gwerth y trafodaethau ar ganlyniadau'r arolwg pobl;<br>• yr her o gynnal gwaith canolbwyntio ar lefel strategol, gan beidio â chrwydro i faes manylion gweithredu;<br>• yr her o osgoi ailadrodd neu drafodaethau cylchol;<br>• yr amser a ganiateir ar gyfer y cyfarfod, gydag apwyntiadau calendr yn parhau i neilltuo 6 awr - byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn addasu apwyntiadau i 4 awr | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| **15** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| 1 5.1 | Bwrdd a Datblygiad yr ELT: dydd Llun 05 a dydd Mawrth 06 Rhagfyr 2022<br>Cyfarfod Strategol: dydd Iau 26 Ionawr 2023<br>Cyfarfod Busnes: dydd Iau 16 Chwefror 2023 | |